

# Symud ymlaen i symud ymlaen

*“Yr wyf fi, gan hynny, yn rhedeg fel un sydd â’r nod yn sicr o’i flaen. Yr wyf yn cwffio, nid fel un sy’n curo’r awyr â’i ddyrnau.” (adn. 26)*

## Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 9:24–27 ac yna myfyrio

Yr ydym am edrych yn awr ar y rhinwedd y mae Pedr yn ei ddweud sydd angen inni ei ychwanegu at hunanddisgyblaeth sef ‘dyfalbarhad’. Ychydig o obaith sydd i ddringo ysgol y rhinweddau yma y mae Pedr yn eu gosod o’n blaen os nad ydym yn ymarfer dyfalbarhad. O ddyfalbarhau, yr ydym yn cadw i fynd pan fo popeth yn ein herbyn. Gellir aralleirio geiriau Paul yn 1 Corinthiaid 9 fel hyn: “Dwi ddim yn gwybod amdanoch chi ond dwi am redeg yn galed hyd y llinell. Rwyf am roi fy holl ymdrech yn hyn. Does yna ddim diogi i fod. Dwi’n gwyllo fy nghorff ac am ei ddisgyblu. Does neb yn mynd i fy nal i yn cysgu, yn dweud wrth bawb arall am redeg a finnau yn oedi.” Mae Paul yn ystyried ei fod mewn marathon ysbrydol a doedd yna ddim am beri iddo wyro oddi wrth ei nod.

Ym marathon Boston yng ngwanwyn 1980, y ferch gyntaf i groesi’r llinell oedd gwraig o’r enw Rosie Ruiz. Ynghanol llw o bobl oedd yn canmol ac yn llongyfarch, fe gafodd y fedal. Wrth iddi dderbyn y fedal, fe sylwodd rhywun fod yna lawer o fraster ar ei choesau oedd yn amlygu diffyg cyhyrau yn y coesau. Cafwyd archwiliad a darganfuwyd fod y wraig wedi ymuno â’r ras yn ystod y filltir olaf.

Faint tybed o Gristnogion sydd yn debyg i Rosie Ruiz; maen nhw am fod yno ar y llinell ond yn amharod i redeg y ras gyfan. Fe fyddan nhw yn yr oedfa ar y Sul ond does yna ddim dyfalbarhad a’r awydd i ddatblygu perthynas bersonol gyda’r Arglwydd yn cael eu harddangos yn ystod dyddiau’r wythnos. Does na ddim dyfalbarhau pan fo amgylchiadau yn anodd. Does na ddim gweddïo trwy unigrwydd. Does na ddim aros yn ffyddlon trwy oriau anodd a chymhleth. Er mwyn byw bywyd Cristnogol effeithiol, rhaid cadw i fynd er mwyn cadw i fynd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Marc 4:1–20; Rhuf. 5:1–5

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Ysgrifennwch ddiffiniad o ddyfalbarhad.
2. Beth yw’r pethau sydd yn gwneud i bobl wrthod y ffydd?

## Gweddï

O Dad, rwy’n ymwybodol dy fod am fy nefnyddio, ond rwyf hefyd yn ymwybodol na fedri fy nefnyddio os nad wyf yn ddibynnol. Cynorthwya fi i gadw i fynd yn ddyfal i’r diwedd er mwyn Iesu. Amen.